# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 27 Mehefin 2017

Amser: 08.30 - 08.42

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Jane Hutt AC<br>Paul Davies AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Gareth Bennett AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Rhuanedd Richards, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd Gareth Bennett i'r cyfarfod fel Rheolwr Busnes newydd grŵp UKIP.

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

# 3 Trefn busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Hysbysodd y Llywydd y Rheolwyr Busnes am y ceisiadau a gafwyd ar gyfer Cwestiwn Brys a Dadl Frys ynghylch effaith y cytundeb a wnaed rhwng Llywodraeth y DU a'r DUP ar fformiwla Barnett.

- Cytunodd y Rheolwyr Busnes y dylid cynnal y Cyfnod Pleidleisio fel yr eitem olaf o fusnes.

**Dydd Mercher**

- Cytunodd y Rheolwyr Busnes y byddai'r Cyfnod Pleidleisio yn cael ei gynnal cyn y Ddadl Fer.

## 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

## 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

- Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 19 Gorffennaf 2017 –**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Cyfoeth Naturiol Cymru: Craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-16 (60 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.5 i ymestyn penodiad Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru (5 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)

## 3.4 Dadl ar Gynigion Deddfwriaethol Aelodau – Dethol Cynnig i'w drafod

- Dewisodd y Pwyllgor Busnes gynnig ar gyfer y ddadl ar 5 Gorffennaf:

**NNDM6349** Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cynnig am fil i gefnogi gofalwyr ifanc yng Nghymru.

2. Diben y bil hwn fyddai:

a) darparu canllawiau statudol i ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer darparu cefnogaeth a hyblygrwydd priodol i ofalwyr ifanc ymgymryd â'u cyfrifoldebau gofal yn ystod oriau ysgol ac ar ôl oriau ysgol;

b) darparu canllawiau i ysgolion i weithio gyda gofalwyr ifanc er mwyn darparu llwybrau hyblyg i sicrhau eu bod yn parhau mewn addysg;

c) caniatáu i ofalwyr ifanc gasglu presgripsiynau ar ran y rhai sydd yn eu gofal, a hynny gyda Cherdyn Gofalwr Ifanc neu ddull arall; a

d) sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r sefydliadau priodol i gyflwyno gwasanaeth lliniarol a chefnogaeth i ofalwyr ifanc ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru.

- Cytunodd y Rheolwyr Busnes i drefnu'r ddadl nesaf ar gynnig deddfwriaethol gan Aelod yn nhymor yr hydref, wedi iddynt adolygu'r drefn berthnasol.

## 4 Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)

Yn dilyn cais gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, sy'n bwriadu cyflwyno Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) fel Bil Pwyllgor, cytunodd y Rheolwyr Busnes i ohirio'r cam o wneud penderfyniad mewn egwyddor ynghylch pa bwyllgor y dylid cyfeirio'r Bil ato at ddibenion gwaith craffu, a hynny er mwyn gallu ystyried y Bil yng nghyd-destun rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth, a gyhoeddwyd heddiw.

## 5 Effaith Deddf Cymru 2017 ar Reolau Sefydlog y Cynulliad: Uwch-fwyafrifoedd

Gwnaeth y Rheolwyr Busnes:

- nodi'r gofynion statudol newydd sydd wedi'u cynnwys yn Adran 111A a 111B o Ddeddf Llywodraeth Cymru a'r ffaith bod angen newid y Rheolau Sefydlog i'w hadlewyrchu (paragraffau 8-14);
- nodi'r cyngor cyfreithiol a ddarparwyd mewn nodyn atodol, sef Atodiad B, ynghylch y goblygiadau ar gyfer y Cyfnod Ailystyried a'r dull a fabwysiadwyd yn yr Alban, lle mae Deddf yr Alban 2016 wedi cyflwyno darpariaethau sydd yn union yr un fath;
- cytuno i ymgynghori â'u grwpiau ar y materion hyn a dychwelyd atynt i gael penderfyniad mewn cyfarfod yn y dyfodol.